

# 0.7%

## Yr achos dros ddiogelu ymrwymiad Datblygu Rhyngwladol Prydain

### BRIFF GAN EGLWYSI'R DU, CHWEFROR 2021

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Canghellor y DU fwriad y Llywodraeth i leihau'r gyllideb ar gyfer datblygu rhyngwladol yn sylweddol, gan ddadlau bod costau ymdrin â phandemig y coronafeirws yn golygu bod angen torri'r gyllideb dros dro.

O dan gynlluniau'r Llywodraeth, bydd gwariant cymorth tramor yn cael ei leihau o 0.7 y cant i 0.5 y cant o Incwm Gwladol Gros. Byddai'n golygu y byddai'r gyllideb ddatblygu ryngwladol yn gweld gostyngiad o tua thraean, o £15.2 biliwn yn 2019 i tua £10 biliwn yn 2021. Llwyddwyd i gyrraedd y targed o 0.7 y cant bob blwyddyn ers 2013, a'i gorffori yn y gyfraith ers 2015.

### Mae uwch arweinwyr a chynrychiolwyr o Eglwysi'r DU wedi beirniadu'r cam hwn yn gryf.

"Mae addewid i'r tlawd yn arbennig o gysegredig." Mae geiriau'r Archesgob Desmond Tutu'n amhosibl i'w hanwybyddu wrth i lywodraeth y DU gynllunio i dorri ein haddewidion i bobl dlotaf'r byd.

Mae lleihau ein hymrwymiad cymorth tramor ar yr adeg argyfyngus hon yn foisol anghywir, yn annoeth yn wleidyddol ac yn weithred o hunan-niwed cenedlaethol. Bydd ei effaith yn cael ei deimlo nid yn unig mewn gweryslyoedd ffoaduriaid ac ardaloedd lle mae rhyfel ond hefyd yn llawer agosach at adref."

*Y Parchedicaif Justin Welby, Archesgob Caergaint*

"Mesur clir o fawredd gwlad yw'r ffordd y mae'n ymateb i anghenion ei phobl dlotaf. Mae'r un peth yn wir am yr ymateb i dlodi rhwng gwledydd. Os ydym yn dymuno bod yn wlad wych mewn gwirionedd yna mae torri'r gyllideb cymorth tramor yn gam yn ôl."

*Cardinal Vincent Nichols, Archesgob Westminster*

"Mae gan doriadau ganlyniadau. Bydd torri cyllideb gymorth y DU yn effeithio ar bobl dlotaf y byd. Nid yw hyn yn ymwneud â thosturi ein gwlad yn unig, mae'n ymwneud â chyfiawnder.

Bydd yn arwain at bobl yn peidio â derbyn gofal iechyd hanfodol yn ystod pandemig byd-eang. Pobl yn llwgu. Llai o blant yn cael eu haddysgu a'u dewisiadau sydd eisoes yn gyfyngedig yn cael eu lleihau ymhellach."

*Cymorth Cristnogol*

"Ar adegau o angen byd-eang, mae angen i'r rhai â'r ysgwyddau ehangaf gefnogi eraill. Nid mater o gymwynasgarwch yw datblygu rhyngwladol, mae'n hanfodol i gyflawni gweledigaeth o Brydain Fyd-eang."

*Y Tra Pharchedig Dr Susan Brown, Eglwys yr Alban*

"Mae ymrwymiad llywodraeth y DU i wario 0.7% o Incwm Gwladol Gros ar ddatblygu rhyngwladol... wedi rhoi llawer i'r DU fod yn falch ohono fel chwaraewr ar y llwyfan rhyngwladol, gan ddangos ein cefnogaeth i wledydd eraill, cydnabod ein rhyng-gysylltedd fel cymuned fyd-eang, a darparu llwyfan cryf i ni annog cyfrifoldeb byd-eang mewn eraill. Nid yw'n dderbyniol dweud y dylai pobl gwledydd eraill ddiodeff mwy oherwydd bod pobl yn y DU yn diodeff effeithiau economaidd y pandemig."

*Yr Eglwys yng Nghymru*

“Credwn na ddylai ymrwymiad i bobl dlotaf y byd fod yn ychwanegiad dewisol ond y dylai fod yn ganolog i gyfrifoldebau’n gwlad, yn enwedig yng nghyd-destun pandemig byd-eang ac argyfwng hinsawdd.”

*Y Parch Clare Downing a Mr Peter Pay, Llywyddion y Cynulliad Cyffredinol, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig*

“Mae’n amser anodd i lawer ohonom, yma yn y DU, ac i’n brodyr a’n chwirydd ar draws y byd. Mae ymrwymiad cymorth y DU yn ganran o incwm y DU – ac felly mae’n newid bob blwyddyn, ac nid yw byth yn fwy na’r hyn y gallwn ei fforddio fel gwlad.”

*Y Parch Richard Teal a Mrs Carolyn Lawrence, Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd*

“Gwrandewais gyda thristwch mawr ar gynllun y llywodraeth i dorri’n haddewid i’r byd drwy dorri ein cyllideb cymorth tramor. Roeddwn i’n ddig wedyn pan ddywedodd y Canghellor na fyddem ni, y bobl, yn hapus i ni drosglwyddo’r gyllideb y cytunwyd arni’n gyfreithiol i’r rhai mewn angen.”

*Y Parchedicaaf Mark Strange, Prif Esgob Eglwys Esgobol yr Alban*

“Mae’r DU yn peryglu ei safbwynt fel gwlad sydd wedi ymrwymo i weld byd iachach, mwy diogel sy’n ffynnu - ar drothwy cynnal uwchgynhadledd y G7 a 26ain Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig.”

*Y Parch Lynn Green, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr*

## Yr Eglwysi a lleihau tloedi byd-eang

Gyda galwad i garu ein cymdogion, ymrwymiad i weithio dros gyfiawnder, a llawer o gysylltiadau byd-eang, mae Eglwysi wedi hyrwyddo ymdrechion rhyngwladol sy’n ymwneud â datblygiad dynol a lleihau tloedi byd-eang ers degawdau lawer. Mae’r targed o 0.07 y cant yn deillio o fenter gan Gyngor Eglwysi’r Byd ym 1958, cyn cael ei fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig ym 1970.

Yn y DU, mae Eglwysi a Christnogion wedi bod yn amlwg iawn yn yr alwad ar Brydain i gefnogi datblygu rhyngwladol a chyflawni ei chyfrifoldebau byd-eang mewn perthynas â chymorth, masnach, dyled a hinsawdd, drwy ymgyrchoedd fel Jiwbilî 2000 a Rhown Derfyn ar Dloedi. Mae gwreiddiau llawer o asiantaethau datblygu rhyngwladol mawr Prydain fel Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund a World Vision yn yr eglwysi.

## Galw ar eich AS i wrthwynebu torri cymorth

Mae angen newid y gyfraith er mwyn gallu lleihau ymrwymiad datblygu rhyngwladol y DU. Cysylltwch â’ch Aelod Seneddol i gyflwyno’r achos dros wrthwynebu’r toriad a diogelu ymrwymiad datblygu rhyngwladol Prydain.

Gallech gynnwys rhai o’r pwyntiau isod:

- **Mae cymorth y DU yn gweithio.** Mae cymorth y DU yn gwneud cyfraniad hanfodol at wella bywydau pobl yn rhai o wledydd tlotaf y byd. Mae gan Brydain enw da ledled y byd am effaith ac effeithiolrwydd ei rhaglenni cymorth.
- **Bydd torri’r gyllideb gymorth yn arwain at golli bywydau.** Mae Achub y Plant yn amcangyfrif y gallai toriad o 30 y cant wedi’i weithredu ar draws gwariant cymorth blaenorol olygu y bydd:
  - 5.6 miliwn yn llai o blant yn cael eu brechu bob blwyddyn, a 105,000 o fywydau’n cael eu colli bob blwyddyn
  - 940,000 yn llai o blant yn cael eu cynorthwyo i dderbyn addysg foddhaol
  - 2.0 miliwn yn llai o bobl yn derbyn cymorth dyngarol bob blwyddyn
  - 3.8 miliwn yn llai o bobl yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad at ddŵr glân a/neu well glanweithdra bob blwyddyn.

Y pandemig byd-eang yw’r argyfwng dyngarol mwyaf mewn cenhedlaeth, ac mae wedi gwthio tua 150 miliwn o bobl i dloedi eithafol ledled y byd. Ar yr adeg dyngedfennol hon, mwy o gymorth rhyngwladol sydd ei angen, nid llai.

- **Cadw'n haddewidion yw'r peth iawn i'w wneud.** Mae'r ymrwymiad 0.7 y cant wedi bod yn destun consensws trawsbleidiol ers 15 mlynedd, hyd yn oed drwy argyfwng ariannol 2008-09. Yn 2015, cefnogodd yr holl bleidiau mawr y cam o gorffori'r targed mewn deddfwriaeth am byth. Ailddatganodd y Blaid Geidwadol ei hymrwymiad i gynnal y gyllideb gymorth yn ei manifesto ar gyfer etholiad 2019, ac eto pan unwyd yr Adran Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor yn haf 2020. Byddai torri cymorth yn torri addewid a wnaed i'r etholwyr ac i bobl dlotaf a mwyaf bregus y byd.
- **Dylai Prydain fod yn falch o'i harweiniad byd-eang yn cefnogi datblygiad.** Mae ymrwymiad y DU i 0.7 y cant wedi bod yn gatalydd i newid sylweddol mewn ymdrechion byd-eang i gefnogi datblygiad. Mae o leiaf pum aelod o'r G7 yn cynllunio i gynyddu cymorth yn 2021. Bydd Ffrainc a'r Almaen yn gwario dros 0.5 y cant o'u heconomïau ar gymorth yn 2021. Mae'r DU wedi bod yn ddylanwadol yn gwthio ei chymheiriaid i ymrwymo i fwy o gymorth a gwell cymorth – ond bydd yn cwmpo'n is na nhw yn awr. Mewn blwyddyn pan fydd y DU yn cynnal Uwchgynadleddau'r G7 a Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, a phan mae'r llywodraeth yn ceisio sefydlu rôl a gweledigaeth ar gyfer 'Prydain Fyd-eang' wedi Brexit, dylem fod yn dangos arweiniad drwy ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu rhyngwladol.
- **Mae cefnogi datblygu rhyngwladol yn gwneud synwyr i Brydain.** Mewn oes o ryngddibyniaeth fyd-eang, mae helpu i greu cymdeithasau mwy diogel, tecach ac iachach lle gall pawb ffynnu er budd pawb. O ran Covid-19, dim ond pan fydd pobl a gwledydd o amgylch y byd yn rhydd o'r firws y gellir codi'r cyfyngiadau ar ein bywydau. Dim ond trwy weithredu rhyngwladol y gellir mynd i'r afael yn effeithiol â heriau cyfoes eraill sy'n effeithio ar Brydain, fel newid yn yr hinsawdd, mudo a rhyfeloedd.
- **Mae'r ymrwymiad 0.7 y cant yn fforddiadwy.** Mae'r ymrwymiad yn cael ei fynegi fel canran o incwm gwladol gan ei fod yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau economaidd, felly dylai fod yn fforddiadwy bob amser. Roedd rhaglenni cymorth yn mynd i gael eu lleihau'n barod oherwydd y crebachu yn economi'r DU. Mae'r gyllideb ddatblygu rhyngwladol yn gyfran gymharol fach o wariant y llywodraeth – yn 2019, roedd tua un rhan o ddeg o'r hyn a wariodd y llywodraeth ar iechyd yn Lloegr, ac ychydig dros draean o'r swm a wariwyd ar amddiffyn. Er bod benthyca cyhoeddus ar lefel uchel, mae cost cynnal y ddyled honno ar ei hisaf ers yr Ail Ryfel Byd, ac yn gostwng, oherwydd cyfraddau llog isel yn hanesyddol. Ar yr un pryd ag y cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i dorri'r gyllideb gymorth, amlinellodd gynllun i gynyddu gwariant milwrol £16.5 biliwn dros bedair blynedd.
- **Gallwn sicrhau bod yr holl gymorth yn cael ei wario ar drechu tlodi byd-eang.** Wrth siarad am faint o gymorth sy'n cael ei wario mae'n hanfodol ein bod ni'n canolbwyntio hefyd ar ansawdd y cymorth hwnnw. Yn anffodus, mae yna enghreifftiau o 'gymorth gwael' wedi bod – a oedd yn cynnwys camdriniaeth, twyll a chamreolaeth. Cyrhaeddodd yr achosion hyn y penawdau sy'n gallu cyfrannu at leihau ymddiriedaeth y cyhoedd yng nghymorth y DU. Ond ni ddylai hyn olygu ein bod ni'n torri'r gyllideb gymorth. I'r gwrthwyneb, mae'n golygu y dylem wella'r ffordd rydym yn gwario cymorth. Mae Deddf Datblygu Rhyngwladol 2002 eisoes yn corffori mewn cyfraith bod rhaid gwario'r holl gyllid cymorth ar drechu tlodi, a dylai hyn barhau i fod yn ffocws ar gyfer gwariant cymorth.

**Gallwch gael manylion cyswllt eich AS yn [members.parliament.uk](https://members.parliament.uk) neu drwy ffonio 020 7219 3000.**

Paratowyd y briff hwn gan Joint Public Issues Team Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig ac Eglwys yr Alban ([www.jointpublicissues.org.uk](http://www.jointpublicissues.org.uk)), ar ran grŵp ehangach o Eglwysi ym Mhrydain. Fe'i cyhoeddwyd gan Churches Together in Britain and Ireland.



**Churches Together in Britain and Ireland +44 (0) 203794 2288**  
**Interchurch House**  
**35 Lower Marsh**  
**London SE1 7RL**  
**[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk)**  
**[www.ctbi.org.uk](http://www.ctbi.org.uk)**

**Elusen gofrestredig rhif 1113299 (Cymru a Lloegr). Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif cofrestredig 5661787**